Llywodraeth EM

# CONTEST

# Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig:

# Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014

Cm 9048

# CONTEST

# Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig

# Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014

Cyflwynwyd i'r Senedd gan

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2015

Cm 9048

**OGL**

© Hawlfraint y Goron 2015 Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch ar y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle nodwyd gwybodaeth hawlfraint unrhyw trydydd parti, bydd angen cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy fynd i www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

ISBN Print 9781474116879

ISBN  y We 9781474116886

ID 17031502 03/15 48566 19585

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi eu hailgylchu. Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Strategaeth Gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig**

**Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014**

**Rhagair** 5

**Rhan 1  Cyflwyniad** 6

Y Bygythiad o du Terfysgaeth 6

**Rhan 2  Ein Hymateb** 8

Erlid 8

*Y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch* 13

Atal 15

*Cydweithredu Rhyngwladol* 19

Amddiffyn 20

*Ymgysylltu â'n Diwydiant Diogelwch a'i Gefnogi* 23

Paratoi 24

**Casgliad** 26

**Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref**

Er na welwyd unrhyw ymosodiadau llwyddiannus ym Mhrydain Fawr y llynedd, bu 2014 yn gyfnod ymestynnol dros ben o ran atal terfysgaeth yn y wlad hon.

Ym mis Awst, dyrchafwyd lefel y bygythiad, sy'n cael ei phennu gan y Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth. Y prif reswm am hynny oedd y datblygiadau yn Syria ac Irac, lle mae Gwladwriaeth Islamaidd Irac a'r Levant (ISIL) wedi codi fel y grŵp terfysgaeth mwyaf milain a threisgar sy'n gweithredu yn y rhanbarth hwnnw. Cafodd y bygythiad y mae'r grŵp hwnnw'n ei beri i wladolion Prydain dramor ac yn y DU ei bwysleisio gan lofruddiaeth farbaraidd dau wystl Prydeinig yn Syria, ynghyd â gwystlon eraill, a hynny'n ôl pob golwg gan aelod o ISIL sydd â chysylltiadau agos â'r wlad hon.

Mae ymosodiad terfysgol yn y wlad hon yn debygol iawn erbyn hyn. Mae'r gyfres o ymosodiadau a chynllwynion a ataliwyd ar draws Ewrop yn 2014 ac eleni yn dangos bod y bygythiad sy'n ein hwynebu yn newid. Roedd rhai ohonynt yn cynnwys pobl a oedd wedi teithio i Syria ac Irac. Mae'n debyg bod eraill yn ymwneud â phobl a gafodd eu sbarduno i gyflawni ymosodiadau gan bropaganda terfysgol yn eu gwledydd eu hunain, a hynny'n aml gan ddefnyddio dulliau gweddol ansoffistigedig.

Mae'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn parhau i wneud gwaith hynod i amharu ar y bygythiadau y mae terfysgwyr yn eu peri i'r DU a'n buddiannau, ond rhaid i ni sicrhau bod ganddynt y pwerau a'r galluoedd angenrheidiol o hyd. Dyna pam y mae'r Llywodraeth hon wedi cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â nifer o'r sialensiau penodol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r heddlu er mwyn cynyddu eu hadnoddau ymchwilio; ac er mwyn ehangu'r rhaglen Atal Llywodraeth-eang i daclo'r ideoleg sy'n bwydo, yn cynnal ac yn cefnogi terfysgaeth.

Mae’r digwyddiadau trasig erchyll ym Mharis a Copenhagen yn ddiweddar yn awgrymu’n gadarn na fydd 2015 yn llai o her. Tra byddwn yn parhau i esblygu ein hymateb strategol i'r bygythiad newidiol, rwy'n hyderus bod y strategaeth yn darparu'r sylfaen cywir ar gyfer ein gwaith gwrthderfysgaeth.

Theresa May AS

Yr Ysgrifennydd Cartref

**RHAN 1: CYFLWYNIAD**

1.1 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth fersiwn newydd o strategaeth gwrthderfysgaeth y DU, sef CONTEST, gan ymrwymo i ddarparu diweddariad blynyddol ar ein gwaith ym maes gwrthderfysgaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2014. Nid yw'n cwmpasu Terfysgaeth sy'n Gysylltiedig â Gogledd Iwerddon (NIRT), mae cyfrifoldeb yn hynny o beth yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ogledd Iwerddon. Y Swyddfa Gartref sy'n arwain y gwaith ar ymateb i fygythiad NIRT i Brydain Fawr.

**Y bygythiad o du terfysgaeth**

1.2 Mae amledd y digwyddiadau o derfysgaeth ym mhedwar ban y byd, a nifer y bobl sy'n marw yn sgil ymosodiadau terfysgol yn parhau i gynyddu. Yn 2013 (sef y flwyddyn ddiweddaraf y cyhoeddwyd ystadegau ar ei chyfer) gwelwyd bron i 12,000 o ymosodiadau terfysgol mewn 91 o wledydd – sef 40% yn fwy na'r hyn a welwyd yn 2012.[1] Digwyddodd ychydig dros hanner yr holl ymosodiadau mewn tair gwlad: sef Irac, Affganistan a Phacistan.

1.3 Yn Awst 2014, dyrchafodd y Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth lefel bygythiad y DU o 'SYLWEDDOL' i 'DDIFRIFOL', sy'n golygu bod ymosodiad yn y DU yn debygol iawn. Terfysgwyr milwriaethus Islamaidd yw'r prif fygythiad o hyd, ac enwedig yn Syria ac Irac. Mae ISIL a grwpiau terfysgol eraill yn Syria bellach yn cael cefnogaeth ymladdwyr tramor o'r DU a gwledydd eraill yn Ewrop. Mae rhyw 600 o bobl â chysylltiadau eithafol ymysg y nifer fawr o Brydeinwyr sydd wedi teithio i'r rhanbarth o'r DU. Mae llawer ohonynt wedi dychwelyd yma erbyn hyn. Mae rhai yn debygol o fod wedi cael profiad o frwydro, a hyfforddiant arall ym maes terfysgaeth. Mae terfysgaeth yn cael ei fwydo gan fwy o bropaganda eithafol a therfysgol nag erioed o'r blaen.

1.4 Mae craidd Al Qa’ida, ei grwpiau cysylltiedig, a grwpiau eithafol rhanbarthol yn dal i fod yn fygythiad i'r DU a'n buddiannau tramor. Mae Al Qa’ida yn y Penrhyn Arabaidd (AQAP) yn Yemen, Al Shabaab yn Nwyrain Affrica, Al Qa’ida yn y Maghreb (AQM), yn ogystal â'r holl grwpiau terfysgaeth eraill ar draws Gogledd a Gorllewin Affrica, oll wedi ymrwymo i ymosod ar fuddiannau'r Gorllewin. Mae rhai o'r grwpiau hyn wedi tyngu teyrngarwch i ISIL.

1.5 Mae tactegau'r terfysgwyr yn parhau i newid. Er bod llawer o grwpiau yn dal i fod â'u bryd ar gyflawni ymosodiadau graddfa fawr, erbyn hyn mae eraill yn hyrwyddo ymosodiadau syml, sy'n gallu cael eu cyflawni gan unigolion. Mae amrywiaeth o grwpiau eithafol yn dal i elwa ar herwgipio am bridwerth, naill ai fel offeryn propaganda, neu am fod gweithgarwch o'r fath yn ffynhonnell refeniw allweddol.

1.6 Terfysgaeth Islamaidd yw'r prif fygythiad i Brydain Fawr o hyd. Ond yn Chwefror 2014, gwelwyd sawl ymgais gan Wrthwynebwyr Gweriniaethol dargedu canolfannau recriwtio'r fyddin yn Lloegr trwy ymosodiad post, sy'n ein hatgoffa bod yna fygythiad i Brydain Fawr o du NIRT o hyd. Mae yna

[1] Y Consortiwm dros Astudio Terfysgaeth ac Ymatebion i Derfysgaeth (START) – http://www.start.umd.edu/news/majority-2013-terroristattacks-occurred-just-few-countries

fygythiad hefyd o du terfysgwyr eithafol yr asgell dde ledled y DU, er bod hyn yn dal i fod yn fach o'i gymharu â'r prif fygythiadau sy'n ein hwynebu.

**RHAN 2: EIN HYMATEB**

2.1 Bwriedir i'r strategaeth CONTEST ymdrin â phob math o derfysgaeth, ac mae'n parhau i fod yn seiliedig ar bedwar prif faes gwaith sydd, gyda'i gilydd, yn ein galluogi i leihau'r bygythiadau sy'n ein hwynebu a'n gwendidau:

- ***Erlid***: ymchwilio i ymosodiadau terfysgol a'u hatal;
- ***Atal***: gweithio er mwyn atal pobl rhag troi at derfysgaeth neu rhag cefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth;
- ***Amddiffyn***: gwella ein diogelwch amddiffynnol er mwyn atal ymosodiad terfysgol; a
- ***Pharatoi***: gweithio i leihau effaith ymosodiadau ac ymadfer mor gyflym â phosibl yn sgil ymosodiadau.

2.2 Er bod strategaeth 2011 yn dal i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer ein gwaith gwrthderfysgaeth, mae ein hamcanion a'n gweithgareddau blaenoriaeth wedi parhau i esblygu i ymateb i'r ffordd y mae'r bygythiadau'n newid.

**ERLID**

2.3 Pwrpas Erlid yw atal ymosodiadau terfysgol trwy ddod o hyd i fygythiadau terfysgol ac ymchwilio iddynt. Ni chafwyd unrhyw ymosodiadau terfysgol llwyddiannus ym Mhrydain Fawr yn 2014. Fodd bynnag, ataliwyd o leiaf tri chynllwyn terfysgol graddfa fawr[2] yn 2014. Yn ystod y deuddeg mis hyd Fehefin 2014, arestiwyd 239 o bobl mewn cysylltiad â therfysgaeth ym Mhrydain Fawr; cafodd 82 o bobl eu cyhuddo o droseddau terfysgaeth, a 29 â throseddau eraill. Mae 32 o'r bobl a gyhuddwyd o droseddau terfysgaeth eisoes wedi cael eu herlyn; collfarnwyd 29 o'r rhain. Ar y cyfan, mae nifer yr arestiadau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth wedi cynyddu rhyw draean ers 2010, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr arestiadau sy'n ymwneud â Syria ac Irac, i 165 yn 2014. Cafwyd 13 o gollfarnau am droseddau terfysgaeth sy'n gysylltiedig â Syria ac Irac yn 2014.

2.4 Ar ddechrau 2014, ein hamcanion o ran Erlid oedd:

- sicrhau bod y pwerau gwrthderfysgaeth yn dal i fod yn effeithiol ac yn gymesur;
- gwella ein gallu i erlyn a defnyddio pwerau ar fewnfudiad a chenedligrwydd yn erbyn pobl am weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth;
- cynyddu ein gallu i ddatgelu bygythiadau terfysgol, ymchwilio iddynt a'u hatal;
- sicrhau bod hyder yng ngwaith yr asiantaethau partner yn cael ei gynnal trwy arolygu effeithiol; a
- gweithio gyda gwledydd eraill a sefydliadau amlochrog er mwyn gwella ein gallu i fynd at wraidd y bygythiadau sy'n ein hwynebu er mwyn eu taclo.

---

[2] Anerchiad DG Security Service i RUSI, Ionawr 2015 – https://www.mi5.gov.uk/home/about-us/ who-we-are/staff-and-management/directorgeneral/speeches-by-the-director-general/ director-generals-speech-on-terrorismtechnology-and-accountability.html

**Pwerau gwrthderfysgaeth effeithiol a chymesur**

**Y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch**

2.5 Mae'r mesurau yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn cryfhau ein pwerau a'n galluoedd Erlid er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael â bygythiadau penodol sy'n ymwneud â Syria ac Iraq. Mae'n cynnwys darparu moddion ychwanegol i atal ymladdwyr tramor rhag teithio yn ôl ac ymlaen i'r rhanbarth, yn ogystal â gwella ein gallu i'w rheoli ar ôl iddynt ddychwelyd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau sylweddol i gryfhau agweddau ar ein gwaith Atal ac Amddiffyn hefyd. Ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf ar dudalen 13.

**Erlyn am droseddau terfysgaeth a gyflawnir dramor**

2.6 Rydyn ni wedi cyflwyno mesurau yn y Ddeddf Troseddau Difrifol (SC) hefyd i'n galluogi i erlyn pobl am gyflawni dwy drosedd terfysgaeth pellach dramor, a chryfhau'r dystiolaeth y caniateir ei chyflwyno ar ran achos yr erlyniad mewn achosion sy'n ymwneud â Syria ac Irac.

**Pwerau ar fewnfudo a chenedligrwydd**

2.7 Mae pwerau ar fewnfudo yn offeryn pwysig wrth amharu ar weithgarwch terfysgwyr, lle na allwn erlyn a chollfarnu pobl sydd dan amheuaeth o derfysgaeth yn y llys. Yn 2014, fe ddalion ni ati i ddefnyddio pwerau ar fewnfudiad er mwyn atal pobl â chenedligrwydd deuol rhag dod yn ddinasyddion Prydain ar y sail 'na fyddai'n ffafriol i les y cyhoedd'. Cafodd 15 o wladolion tramor eu gwahardd o'r wlad ar sail diogelwch cenedlaethol, a 15 ar sail 'ymddygiad annerbyniol' gan gynnwys 'areithio casineb'. Rydyn ni wedi defnyddio pwerau diarddel hefyd: diarddelodd yr Ysgrifennydd Cartref 11 o sefydliadau terfysgaeth yn 2014, yr oedd chwech ohonynt yn gysylltiedig ag argyfwng Syria, gan gynnwys ISIL a'i grwpiau cyswllt. Adeg cyhoeddi, mae 11 o grwpiau sy'n gysylltiedig â Syria wedi eu diarddel.

**Y gallu i ddatguddio bygythiadau terfysgol, ymchwilio iddynt a'u hatal**

**Cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r bygythiad terfysgol sy'n gysylltiedig â Syria ac Irac**

2.8 Mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'r cynnydd yn y bygythiad, ac yn enwedig mewn perthynas â Syria ac Irac, trwy gynyddu'r gyllideb gwrthderfysgaeth, a hynny'n bennaf ar gyfer 2015/16. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y Prif Weinidog gwerth £130m o gyllid gwrthderfysgaeth ychwanegol, a bydd y mwyafrif o hyn yn mynd i dalu am adnoddau ymchwilio pellach ar gyfer yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r heddlu.

**Rhyng-gipio a data cyfathrebu**

2.9 Mae data cyfathrebu (sef pwy, ble, pryd a sut cyfathrebu, ond nid ei gynnwys) yn offeryn hanfodol wrth ymchwilio i droseddau ac amddiffyn y cyhoedd. Mae rhyng-gipio cynnwys y cyfathrebu yn hanfodol hefyd er mwyn cynnal diogelwch gwladol ac atal troseddau difrifol. Mae newidiadau cyflym mewn technoleg, a defnydd cynyddol y gymdeithas ar led o ddulliau o gyfathrebu dros y rhyngrwyd, yn ogystal â'r ymwybyddiaeth uwch o'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig i'r gymuned droseddol, yn golygu nad yw'r data bob amser ar gael i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth pan fo angen amdano er mwyn ymchwilio i weithgarwch penodol gan derfysgwyr. Heb weithredu yn hyn o beth, ni fydd modd datguddio'r troseddau sy'n cael eu hwyluso

gan e-bost a'r rhyngrwyd, na chosbi'r troseddwyr. O ganlyniad, mae gweithgarwch i gynnal gallu'r asiantaethau diogelwch, cudd-wybodaeth a gorfodi'r gyfraith i gael gafael ar ddata cyfathrebu ac i ryng-gipio cysylltiadau o fewn y fframwaith cyfreithiol priodol, wedi parhau i fod yn flaenoriaeth uchel.

2.10 Deddfwriaeth frys oedd y Ddeddf Pwerau Ymchwilio a Chadw Data (DRIPA), a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2014. Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd mewn ymateb i benderfyniad y Llys Ewropeaidd yn Ebrill 2014 a oedd yn annilysu Cyfarwyddeb Cadw Data (DRD) yr UE. Mae DRIPA yn darparu sail gyfreithiol sy'n galluogi cwmnïau cyfathrebu domestig i barhau i gadw rhai mathau o ddata cyfathrebu. Gwnaeth y Ddeddf hi'n glir hefyd bod yn rhaid i unrhyw gwmni sy'n darparu gwasanaethau telathrebu ar gyfer cwsmeriaid yn y DU gydymffurfio â'i rwymedigaethau i gyflawni gwaith rhyng-gipio neu ddarparu data cyfathrebu mewn ymateb i geisiadau cyfreithlon, dim ots ymhle y lleolir y cwmnïau hynny. Mae'n eglurhau'r diffiniad o ddarparydd gwasanaeth cyfathrebu hefyd, er mwyn ei gosod y tu hwnt i unrhyw amheuaeth fod hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau ar y we ac ar systemau cwmwl. Nid oedd DRIPA yn ymestyn y pwerau; yn hytrach, roedd yn darparu sylfaen cyfreithiol clir ar gyfer y pwerau sy'n bodoli eisoes . Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (gweler tudalen 13) yn darparu galluoedd newydd pwysig o ran data cyfathrebu. Ond ni aeth DRIPA na'r Ddeddf ddiweddarach i'r afael â galluoedd ehangach yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i gyrchu data cyfathrebu. Dyma'r maes yr oedd y Bil Data Cyfathrebu Drafft yn ymdrechu i fynd i'r afael ag ef, ond ni chafwyd cytundeb y glymblaid, ac felly ni chafwyd mwyafrif i fynd â'r Bil trwy'r Senedd.

2.11 Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir y bydd angen edrych eto ar faterion data cyfathrebu ar ôl yr etholiad. Bydd canfyddiadau'r adolygiad o weithrediad a rheoleiddiad y pwerau ymchwilio y mae'r Adolygydd Annibynnol ar Ddeddfwriaeth Terfysgaeth,  David Anderson QC, wrthi'n ei gyflawni ar hyn o bryd yn bwydo trafodaethau'r Llywodraeth yn hyn o beth. Sefydlwyd yr adolygiad gan DRIPA, ac mae'n gofyn bod yr Adolygydd Annibynnol yn ystyried materion fel: bygythiadau cyfredol a'r dyfodol i'r DU; y galluoedd sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bygythiadau hynny; effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth gyfredol, a'r achos dros ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygio deddfwriaeth; a'i fod yn cwblhau ei adroddiad erbyn 1 Mai 2015.

**Ariannu Terfysgaeth**

2.12 Mae'r Llywodraeth yn ceisio gwneud y DU yn amgylchedd anghroesawgar ar gyfer ariannu terfysgaeth trwy weithredu yn erbyn codi arian a symud arian y terfysgwyr i mewn ac allan o'r DU, a thrwy annog gwledydd eraill i wneud yr un peth. Un offeryn allweddol yn ein hymateb i gyllid gwrthderfysgaeth yw ein gallu i amddifadu pobl a amheuir o derfysgaeth o'u cyllid, trwy rewi eu hasedau a'u gallu i gyrchu cyllid o dan Drefn Sancsiynu Al Qa'ida y Cenhedloedd Unedig, trefn rhewi asedau'r UE a'n deddfwriaeth ddomestig ein hunain (Deddf Rhewi Asedau Terfysgwyr 2010). Mae'r fframweithiau hyn yn gwahardd rhyddhau cyllid neu adnoddau economaidd ar gyfer unigolion ac endidau dynodedig o dan y cyfundrefnau hyn. Yn 2014, gwelwyd naw achos newydd lle rhewyd asedau domestig unigolion, ac ar 31 Rhagfyr 2014, roedd 80 o gyfrifon a oedd yn gysylltiedig â gwahanol gyfundrefnau wedi eu rhewi.

**Pwerau Uchelfraint Frenhinol**

2.13 Lle nad oes modd dwyn erlyniad, rydyn ni wedi parhau i ymarfer amrywiaeth o bwerau i amharu ar weithgarwch terfysgol. O dan bwerau Uchelfraint Frenhinol, gallwn ganslo neu wrthod rhoi pasbortau Prydeinig i unigolion sydd am deithio i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Defnyddiwyd y pwerau hyn ar 24 achlysur yn 2014.

**Arolygiaeth effeithiol**

2.14 Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod y pwerau a'r galluoedd sydd ar gael i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, a'u bod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth effeithiol.

2.15 Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch (ISC) y Senedd adroddiad ar gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â llofruddiaeth y Ffiwsilwr Lee Rigby yn 2013. Hwn oedd yr adroddiad cyntaf i ISC ei gyhoeddi ers i Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 ehangu ei gylch gorchwyl. Dangosodd yr adroddiad bod craffu cyhoeddus trylwyr yn cael ei gymhwyso i weithgareddau'r asiantaethau cudd-wybodaeth yn y wlad yma. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth yn Chwefror 2015.[3] (Cyhoeddwyd adroddiad yr ISC ar breifatrwydd a diogelwch ym mis Mawrth 2015, y tu hwnt i gyfnod yr adroddiad hwn.)

2.16 Cyhoeddodd David Anderson QC, Adolygwr Annibynnol y Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, ei bedwerydd adroddiad blynyddol ar y Deddfau Terfysgaeth ym mis Gorffennaf 2014.[4] Mae e wedi dweud yn glir bod angen i ni barhau i ystyried cyfreithiau Gwrthderfysgaeth y DU yng nghyd-destun y bygythiad sy'n newid yn gyflym. Cyhoeddwyd ymateb llawn y Llywodraeth ar 12 Mawrth 2015.[5]

2.17 Fel ychwanegiad at y trefniadau arolygu statudol, mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn cynnwys pŵer sy'n caniatáu ar gyfer creu Bwrdd Preifatrwydd a Rhyddid Dinesig i gefnogi'r Adolygwr Annibynnol, ac ymestyn y mesurau arolygu sy'n bodoli eisoes.

2.18 Mae awdurdodiad i ryng-gipio cynnwys cyfathrebu unigolion yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan Gomisiynydd y Gwasanaethau Cudd-wybodaeth, Syr Mark Waller QC, a'r Comisiynydd Rhyng-gipio Cyfathrebu, Syr Anthony May QC, tra bod y Prif Gomisiynydd Arwylio, Syr Christopher Rose, yn goruchwylio'r defnydd o gudd-wybodaeth ddirgel. Cyhoeddodd pob un o'r rhain adroddiadau blynyddol[6] yn 2014.

---

[3] Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch y Senedd am Lofruddiaeth y Ffiwsiliwr Lee Rigby, cyhoeddwyd 26 Chwefror 2015 – https://www.gov.uk/government/publications/ government-response-to-isc-report-onintelligence-on-the-murder-of-fusilier-lee-rigby

[4] Y Ddeddf Terfysgaeth yn 2013, Adroddiad yr Adolygydd Annibynnol ar Weithrediad Deddf Terfysgaeth 2000 a Rhan 1 o Ddeddf Terfysgaeth 2006 gan David Anderson QC, cyhoeddwyd 22 Gorffennaf 2014 – https://terrorismlegislationreviewer. independent.gov.uk/the-terrorism-acts-in-2013july-2014/

[5] Ymateb y Llywodraeth I'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Deddfau Terfysgaeth yn 2013, cyhoeddwyd 12 Mawrth 2015 – https://www.gov.uk/ government/publications/government-responseto-the-annual-report-on-the-operation-of-theterrorism-acts-in-2013

[6] Adroddiad y Comisiynydd Gwasanaethau Cudd-wybodaeth ar gyfer 2013, Y Gwir Anrh. Syr Mark Waller, cyhoeddwyd 26 Mehefin 2014 – http:// intelligencecommissioner.com/docs/40707_ HC304IntelligenceServicesCommissioner_ Accessible.pdf Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Rhyng-gipui Cyfathrebu, y Gwir Anrh. Syr Anthony May ar gyfer 2013, cyhoeddwyd 8 Ebrill 2014 – http://iocco-uk.info/docs/2013%20 Annual%20Report%20of%20the%20IOCC%20 Accessible%20Version.pdf Adroddiad Blynyddol y Prif Gomisiynydd Arwylio, y Gwir Anrh. Syr Christopher Rose,

2.19 Trafodir ein gwaith gyda gwledydd eraill a sefydliadau amlochrog i fynd i'r afael  bygythiadau terfysgol ar dudalen 19.

**DEDDF GWRTHDERFYSGAETH A DIOGELWCH 2015**

Yn sgil dyrchafu lefel y bygythiad o derfysgaeth yn Awst 2014, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddeddfwriaeth newydd i sicrhau bod gan yr heddlu, a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y pwerau a'r galluoedd cyfreithiol priodol sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â bygythiadau o derfysgaeth sy'n ymwneud â Syria ac Irac, gan gynnwys y gallu i atal pobl rhag teithio i ymladd yn y rhanbarth.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ychwanegu at y pwerau sy'n bodoli eisoes trwy: amharu ar allu pobl i deithio dramor i ymladd, ac i ddychwelyd yma; gwella ein gallu i fonitro a rheoli gweithredoedd y bobl hynny sy'n fygythiad yn y DU; a brwydro yn erbyn yr ideoleg sy'n bwydo, yn cynnal ac yn sancsiynu terfysgaeth.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y mesurau canlynol:

- **Atafaelu Pasbortau Dros Dro**: sy'n rhoi pŵer newydd i heddlu'r ffiniau atafael pasbortau a dogfennau teithio eraill unigolion yr amheuir eu bod yn bwriadu teithio i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth dros dro (am 14 diwrnod i gychwyn, y gellir ei ymestyn i uchafswm o 30 diwrnod gyda chaniatâd y llys);
- **Gorchmynion Gwahardd Dros Dro**: sy'n amharu dros dro ar ddychweliad dinasyddion o Brydain yr amheuir eu bod wedi bod yn gysylltiedig â gweithgarwch terfysgol dramor, gan sicrhau bod yr heddlu yn rheoli eu dychweliad;
- **Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth (TPIM)**: mae'r trothwy cyfreithiol ar gyfer gorfodi hysbysiadau TPIM wedi cael ei ddyrchafu 'yn ôl pwysau tebygolrwydd.' Erbyn hyn, mae'r drefn yn cynnwys pwerau: i adleoli deiliad, i atal y deiliad rhag teithio y tu hwnt i'r arall lle mae'n preswylio, i fynnu nad yw deiliad yn cwrdd â sefydliadau neu bobl benodol eraill, ac yn eu gwahardd rhag caffael/cadw trwyddedau arfau tanio, arfau bygythiol neu ffrwydron. Cynyddwyd y ddedfryd fwyaf ar gyfer mynd yn groes i fesur teithio TPIM o bum mlynedd i ddeg;
- **Penderfyniad Protocol y Rhyngrwyd**: diwygio DRIPA er mwyn gwella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i adnabod pa ddyfeisiau neu unigolion sy'n gyfrifol am anfon cysylltiadau dros y rhyngrwyd;
- **Diogelwch y Ffiniau**: gwella diogelwch teithio rhyngwladol yn yr awyr, ar y dŵr ac ar y rheilffyrdd, gyda darpariaethau sy'n gysylltiedig â data am deithwyr, yr awdurdod i gludo (h.y. cynlluniau 'dim hedfan') a mesurau diogelwch a sgrinio;
- **Atal**: gosod dyletswydd newydd ar amrywiaeth o sefydliadau'r Llywodraeth sy'n gweithio gyda'r cyhoedd, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, carchardai, ysgolion a phrifysgolion, i atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth;
- **Channel**: gosod Channel – sef ein rhaglen wirfoddol gyfredol ar gyfer pobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio ar seiliau statudol, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n gyson ar draws y wlad;

- **Diwygiadau i Ddeddf Terfysgaeth 2000**: sy'n diwygio'r mesurau sy'n atal ad-dalu taliadau pridwerth a wnaed i sefydliadau terfysgol; a chwmpas y pŵer ar gyfer archwilio nwyddau mewn porthladdoedd neu'n agos atynt; a'r

- **Bwrdd Preifatrwydd a Rhyddid Dinesig**: sy'n creu bwrdd a fydd yn cynorthwyo'r Adolygiad Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth ar faterion preifatrwydd a rhyddid dinesig.

Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth gerbron y Senedd ar 26 Tachwedd 2014, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Chwefror 2015, gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Mae'r heddlu, M15 ac eraill yn rhoi'r mesurau ar waith erbyn hyn. Bydd y Senedd yn ystyried Is-ddeddfwriaeth y mae angen dybryd amdani er mwyn cyflwyno rhai pwerau newydd ym mis Mawrth, cyn yr Etholiad Cyffredinol. Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer y llu o sefydliadau y bydd y ddyletswydd Atal newydd yn effeithio arnynt at ddibenion ymgynghori ar 18 Rhagfyr 2013. Cyhoeddir canllawiau diwygiedig ym mis Mawrth ar ôl cael cymeradwyaeth y Senedd trwy'r weithdrefn penderfyniadau cadarnhaol.

**ATAL**

2.20 Mae ISIL a rhai grwpiau terfysgaeth eraill yn ceisio ysbrydoli gweithredoedd o derfysgaeth gan unigolion (mewn gwledydd nad ydynt yn rhai Islamaidd yn bennaf) ac yn annog pobl ifanc i ymuno â grwpiau terfysgaeth dramor. Mae eu tactegau'n gwneud ein gwaith atal yn bwysicach byth. Rydyn ni'n dal i roi prif agweddau'r strategaeth a gyhoeddwyd yn 2011 ar waith, ond mae natur newidiol y bygythiad wedi golygu newid ym mhwyslais y gwaith.

2.21 Ein prif amcanion o ran Atal oedd:

- ymateb i ideoleg eithafiaeth a therfysgaeth a'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu gan y bobl sy'n eu hyrwyddo;
- atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol; a
- gweithio gyda sectorau penodol lle bo perygl o radicaleiddio y mae angen mynd i'r afael â nhw.

2.22 Cymerwyd cam sylweddol yn hyn o beth yn 2015, trwy osod Atal ar sylfeini statudol; bydd hyn yn sicrhau mwy o gysondeb yn y gwaith o gyflawni hyn ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

**Herio ideoleg eithafol a therfysgol**

**Cyfyngu ar fynediad at ddeunyddiau terfysgol a'u hargaeledd**

2.23 Mae ISIL yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy ac yn amlach nag erioed o'r blaen, gan gynnwys i ledu negeseuon personol gan ymladdwyr o'r DU a thramor, a phropaganda'r sefydliad. Mae cael gwared ar ddeunydd terfysgaeth yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel. Mae uned bwrpasol o'r heddlu - sef yr Uned Atgyfeirio Gwrthderfysgaeth ar y Rhyngrwyd (CTIRU) – yn parhau i atgyfeirio cynnwys sy'n groes i ddeddfwriaeth derfysgaeth y DU at y diwydiant cyfathrebu. Os yw'r cwmnïau'n cytuno bod y cynnwys yn mynd yn groes i'w hamodau a'u telerau eu hunain, maent yn ei ddileu.

2.24 O ran y mater allweddol o ddileu deunydd o'r math hwn, mae ein cydweithrediad â phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol yn gweithio'n dda. Mae faint o gynnwys anghyfreithlon sy'n cael ei ddileu gan gwmnïau'r rhyngrwyd wedi cynyddu'n sylweddol i 46,000 darn o wybodaeth yn 2014. Cynnwys sy'n ymwneud â Syria ac Irac yw tua 70% o faich gwaith CTIRU erbyn hyn. Ym mis Mawrth 2014, lansiwyd dull newydd i'r cyhoedd fynd ati i hysbysu am ddeunyddiau terfysgol; ac mae atgyfeiriadau gan y cyhoedd wedi treblu ers hynny. Rydyn ni'n annog gwladwriaethau eraill i fabwysiadu'r dull hwn o fynd ati, a hynny o bosibl gan ddefnyddio cyfleuster newydd yn Europol.

**Amharu ar y propagandwyr**

2.25 Nid ar-lein yw'r unig le y mae radicaleiddio'n digwydd. Mae atal effeithiol yn dibynnu ar amharu, ac mae angen cydlynu'r ddau beth, a lle bo modd, arestio ac erlyn pobl sy'n ymwneud â radicaleiddio a dosbarthu propaganda terfysgaeth. Rydyn ni wedi parhau i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Cartref i wahardd propagandwyr o'r wlad hon, ac alltudio sefydliadau sy'n darparu platfform ar gyfer ideoleg eithafol a therfysgol. Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, ac yn benodol, â'r byd addysg bellach ac uwch, er mwyn sicrhau nad yw siaradwyr eithafol yn cael gweithredu yn y sectorau hyn heb eu herio.

2.26 Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda diwydiant y rhyngrwyd yn y DU i weld a yw eu cynnyrch hidlo yn cynnig offer effeithiol i alluogi eu cwsmeriaid i'w hamddiffyn eu hunain a'u plant rhag cynnwys sy'n eithafol ac yn gallu cael effaith niweidiol ar bobl fregus, hyd yn oed os nad yw'r deunydd yn anghyfreithlon.

**Atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth**

2.27 Mae ein ffocws yn y maes hwn bellach ar atal pobl rhag teithio i Syria ac Iraq yng nghyd-destun gweithgarwch eithafol a therfysgol; a (lle nad oes sail ar gyfer erlyniad) rheoli'r risg o du'r rhai sydd wedi dychwelyd oddi yno.

2.28 Mae sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol a'r heddlu yn hyfforddi staff y rheng flaen a allai ddod i gysylltiad â phobl sy'n ystyried teithio. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau cynghori a mentora ar gyfer rhieni a phobl ifanc fregus. Rydyn ni wedi cyfarwyddo ein prosiectau i ymateb i'r bygythiad yn Syria ac Irac. Er enghraifft, rydyn ni wedi hyfforddi staff y rheng flaen mewn dros 120 o ysgolion mewn ardaloedd blaenoriaeth mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r perygl o deithio. Mae llawer o sefydliadau cymunedol yn y wlad hon a thramor wedi cymryd y blaen wrth ddatblygu eu hymatebion eu hunain i bropaganda terfysgol. Ond lle nad oes ganddynt foddion i wneud hynny, rydyn ni wedi darparu cymorth. Ym mis Gorffennaf, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cartref gefnogaeth i 'Families Matter', sef ymgyrch genedlaethol dan arweiniad sefydliad cymunedol â'r nod o atal pobl ifanc rhag teithio i Syria ac Irac, ac annog aelodau o deuluoedd y bobl a allai fod ar fin teithio i ofyn am gymorth.

2.29 Dosbarthwyd deunyddiau sy'n disgrifio peryglon teithio yn helaeth trwy fosgiau, asiantau teithio, porthladdoedd a swyddfeydd trosglwyddo arian ar draws y wlad. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi lledaenu 200,000 o daflenni a 30,000 o bosteri mewn pump iaith ar 'ddulliau diogel o gefnogi Syria' trwy gyfrannu at elusennau cofrestredig, ac mae'r Comisiwn wedi dosbarthu cyngor ar gyfer rhyw 40,000 o elusennau, a phobl eraill sydd â buddiant, am y peryglon sy'n gysylltiedig ag anfon confois i Syria.

2.30 Lle codwyd pryderon penodol, a bod unigolion yn cydsynio i'r peth, gall y rhaglen *Channel* aml-asiantaeth ddarparu cymorth wedi ei deilwra ar gyfer pobl y nodwyd eu bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Cafwyd dros 2000 o atgyfeiriadau at y rhaglen ers Ebrill 2012; cynigiwyd cymorth i gannoedd ac maent wedi ei gael erbyn hyn.

2.31 Gosododd y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch seiliau statudol ar gyfer y rhaglen *Channel* (yng Nghymru a Lloegr) a'r rhaglen *Prevent Professional Concerns* (yn yr Alban). Mae rhaglenni *Channel* eisoes yn bodoli yn ardal pob awdurdod lleol , ac yn y mwyafrif o ardaloedd, mae'r awdurdod lleol a'r partneriaid lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol i gynorthwyo pobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio a chael eu denu i mewn i derfysgaeth. Y bwriad wrth osod y rhaglenni ar sail statudol yw sicrhau cydweithredu effeithiol yn lleol a chyflawni ym mhob maes fel bod pobl sy'n agored i gael eu denu i mewn i derfysgaeth yn cael y cymorth gorau posibl.

2.32 O'r 600 a mwy o bobl â chysylltiadau eithafol sydd wedi teithio i Syria ac Irac, mae tua hanner wedi dychwelyd erbyn hyn. Yr asiantaethau a'r heddlu sy'n gyfrifol am asesu'r bygythiad y maent yn ei beri ac am ymchwilio i bobl sydd wedi torri'r gyfraith, neu a allai fod wedi gwneud hynny. Lle nad yw erlyniad yn briodol, rydyn ni'n ystyried dewisiadau ataliol fel mater o drefn, gan gynnwys

atgyfeiriadau i Channel neu fathau eraill o fecanweithiau cymorth. O ran y bobl sydd wedi dychwelyd o Syria ac Irac, mae ein gwaith Atal yn cael ei gydlynu'n agos â gweithgarwch ymarferol yr heddlu a'r asiantaethau.

**Gweithio gyda'r sectorau lle mae yna risgiau o radicaleiddio**

2.33 Mae'r gwaith atal mewn ardaloedd lleol yn dibynnu ar gydweithrediad effeithiol nifer o sectorau, gan gynnwys llywodraeth leol, iechyd, addysg, carchardai, cyfiawnder ieuenctid, mewnfudiad ac elusennau. Mae gennym rwydwaith o gydlynwyr Atal pwrpasol mewn 30 o ardaloedd Awdurdod Lleol blaenoriaeth, ac rydyn ni'n cefnogi prosiectau pwysig mewn 14 ardal bellach. Ers dechrau 2012, cyflawnwyd dros 180 o brosiectau lleol, gan gynnwys addysg, diogelwch y rhyngrwyd, a gwaith gyda theuluoedd, gan estyn allan at dros 55,000 o bobl.

2.34 Ond nid yw'r cydweithredu lleol ar Atal wedi bod yn gyson bob amser ar draws y wlad. Yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Eithafiaeth (ETF) a sefydlwyd gan y Prif Weinidog yn dilyn llofruddiaeth derfysgol y Ffiwsiliwr Lee Rigby, mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch wedi gosod dyletswydd statudol newydd ar rai cyrff (gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, carchardai, darparwyr gwasanaethau profiannaeth, ysgolion, colegau a phrifysgolion) i roi sylw priodol i'r angen am atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth. Y man cychwyn ar gyfer yr holl awdurdodau a bennir yn y ddyletswydd fydd cynhyrchu asesiad o'r risg o radicaleiddio yn eu hardal, sefydliad neu gorff, a lle nodir bod yna risg, datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag ef. Nid yw'r ddyletswydd newydd yn newid strategaeth Atal 2011, ond yn hytrach bwriedir iddo sicrhau ei fod yn cael ei gweithredu mewn ffordd gyson ac effeithiol. Yr effaith fydd sefydlu safon uwch ac unffurf ar gyfer ein gwaith Atal ar draws mwy o sectorau ym mhob rhan o'r wlad.

2.35 Un o gasgliadau eraill yr ETF oedd bod ar y Comisiwn Elusennau angen pwerau newydd a chadarnach i roi diwedd ar gamddefnyddio elusennau. Mae Bil Amddiffyn Elusennau drafft, a fyddai'n cryfhau pwerau'r Comisiwn, wedi bod yn destun craffu cyn y broses ddeddfu. Rydyn ni wedi cynyddu'r cyllid er mwyn cryfhau gallu'r Comisiwn i fynd i'r afael â'r risgiau o gamddefnydd ar y sector elusennau gan eithafwyr a therfysgwyr.

2.36 Mae'r digwyddiadau yn Syria ac Irac wedi cynyddu'n sylweddol nifer yr arestiadau am weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y wlad hon ac mewn gwledydd eraill yng Ngorllewin Ewrop. Mae nifer y bobl sydd yn y carchar am weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth (er bod hynny am ddedfrydau byr weithiau) yn cynyddu.

2.37 Ar Chwefror 2015 roedd 201 o droseddwyr sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y ddalfa, a 53 pellach o dan oruchwyliaeth y gwasanaethau profiannaeth. Ond mae yna tua 600 o garcharorion sydd wedi achosi pryder am eu bod wedi dangos ymddygiad eithafol a allai ddangos eu bod yn agored i negeseuon eithafol, neu am yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddylanwadu ar neu radicaleiddio pobl eraill. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) wedi parhau i fynd i'r afael ag ymddygiad eithafol trwy weithgarwch ac ymyraethau amharu wedi eu targedu. Y llynedd, cwblhaodd tua 750 o droseddwyr ‘Tarbiyah’, sef cwrs a gynlluniwyd i roi gwell dealltwriaeth o Islam i garcharorion.

**Delio ag eithafiaeth**

2.38 Nododd y Strategaeth Atal yn glir bod atal terfysgaeth yn gofyn am herio syniadau eithafol (a rhai nad ydynt yn dreisgar) sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth. Ac mae Atal yn golygu ymyrryd er mwyn ceisio atal pobl rhag symud ymlaen o grwpiau ac ymddygiad eithafol i weithgarwch terfysgol hefyd. Ond mae eithafiaeth yn gallu achos llawer o fathau eraill o niwed heblaw am derfysgaeth, a dangoswyd hyn yn glir yn ystod y flwyddyn yn sgil achos Ceffyl Pren Caerdroea (*Trojan Horse)* lle cafodd unigolion a oedd yn arddel, yn uniaethu â neu'n methu â herio safbwyntiau eithafol ddylanwad dros grŵp bychan o ysgolion yn ardal Birmingham.

**CYDWEITHREDU RHYNGWLADOL**

Mae cydweithredu rhyngwladol ar draws pob maes o'n gwaith gwrthderfysgaeth yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae cwmpas a chynnwys y cydweithredu wedi newid hefyd yn sgil y bygythiad sy’n datblygu yn Syria ac Irac, ac yn benodol mudiad miloedd o ymladdwyr tramor o Ewrop.

Wrth galon y cydweithredu hwn mae cyfnewid gwybodaeth weithredol gan asiantaethau a heddluoedd, a rhyngddynt. Rydyn ni'n parhau i adeiladu ar ein capasiti o ran diogelwch a chyfiawnder dramor mewn gwledydd lle mae buddiannau'r DU yn wynebu'r perygl mwyaf o derfysgaeth, gan gynnwys trwy Bartneriaethau Cyfiawnder a Hawliau Dynol. Mae ein hyfforddiant wedi cynorthwyo gwladwriaethau eraill i amharu ar gynlluniau terfysgol sy'n gysylltiedig â'r DU yn ogystal â gwella safonau tystiolaeth a hawliau dynol ymchwiliadau i wrthderfysgaeth dramor.

Mae rhaglen Atal gan y DU ers yn hwy na llawer o'n partneriaid tramor, ac rydym wedi cymryd y blaen wrth hyrwyddo'r cysyniad Atal ac wrth adnabod prosiectau Atal allweddol. Mae gan lawer o wledydd eraill raglenni Atal erbyn hyn; rydyn ni'n cyfnewid syniadau ac arbenigedd yn y maes ac yn dysgu gan ein gilydd. Mae'n bosibl taw'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhai agweddau ar ein gwaith Atal (ac yn enwedig y gweithgarwch gyda chwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol) yw mewn partneriaeth â'n cynghreiriaid. Y DU yw Cyd-gadeirydd grŵp 'Gwrtheithafiaeth Dreisgar' Fforwm Gwrthderfysgaeth y Byd (GCTF) ac mae'n darparu cymorth technegol ar gyfer 'Canolfan Hadayah' y GCTF sy'n gysylltiedig â gwaith Atal yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Ym mis Medi, pennodd y Prif Weinidog gyfres o gynigion a mentrau ar ran y DU ar gyfer gweithredu ychwanegol yn erbyn eithafiaeth o fewn y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y cyfraniad cyntaf at y Gronfa Ymgysylltu a Gwytnwch Cymunedau Byd-eang.

Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol diweddar yn Ewrop, rydyn ni'n arwain gwaith Ewropeaidd i gasglu a rhannu mwy o wybodaeth am bobl sy'n teithio i Syria ac Irac (yn enwedig trwy Gofnodion Enwau Teithwyr) ac i wneud mwy o lawer i reoli symudiad arfau tanio ar draws Ewrop. Rydyn ni'n gweithio gyda gwledydd yn Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica i ddatblygu eu harbenigedd, eu seilwaith a'u deddfwriaeth ym maes gwrthderfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfoethogi eu galluoedd o ran ymateb i argyfyngau a sgrinio pobl sy'n hedfan. Mae rhywfaint o'r gwaith yma'n cael ei gyflawni mewn cydweithrediad agos â'n diwydiant diogelwch arbenigol ein hunain (trafodir hyn ar dudalen 23).

Rydyn ni'n parhau i ddefnyddio trefniadau sancsiynu'r CE a'r UE er mwyn helpu i amharu ar sefydliadau ac unigolion terfysgol, yn ogystal ag anfon arwyddion gwleidyddol cadarn yn rhyngwladol. Er enghraifft, wrth weithio gyda Nigeria yn sgil herwgipio merched ysgol Chibok, llwyddwyd i wireddu rhestru Boko Haram ac Ansaru, sy'n gamau gwleidyddol pwysig, a hynny o dan drefn Sancsiynu Al Qa’ida y Cenhedloedd Unedig.

Rydyn ni wedi diogelu Penderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ar weithredu yn erbyn ISIL hefyd, ac wedi cefnogi'r penderfyniad ar ymladdwyr tramor. Mae'r penderfyniadau hyn wedi bod yn hanfodol wrth osod sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu pellach gan y glymblaid, ac mae ein ffocws erbyn hyn ar bwyso am weithredu mesurau ymarferol o dan y cytundebau hyn er mwyn helpu i darfu ar lif cyllid, pobl a deunyddiau i ISIL.

**AMDDIFFYN**

2.39 Trwy gydol 2014, gwelwyd bygythiad parhaus o derfysgaeth wrth hedfan. Mae diogelwch ein ffiniau a systemau'r ffiniau yn chwarae rhan annatod wrth atal a tharfu ar weithgarwch terfysgol, gan gynnwys y bygythiad o du ymladdwyr tramor sy'n dychwelyd i'r wlad hon. Yn ogystal, mae'r ymosodiadau rydyn ni wedi eu gweld mewn misoedd diweddar - yn fwyaf nodedig ym Mharis - wedi amlygu'r sialensiau rydyn ni'n eu hwynebu heddiw wrth amddiffyn ardaloedd trefol prysur (a elwir yn 'lefydd poblog'), rhai cymunedau ac unigolion, ac eto mae hyn wedi gofyn am newid yn ein dulliau o weithredu.

2.40 Yn 2014, ein hamcanion o ran Amddiffyn oedd:
- cryfhau diogelwch ein ffiniau;
- gwneud ein rhwydwaith trafnidiaeth yn llai bregus;
- cynyddu gwytnwch ein seilwaith hanfodol; a
- gwella diogelwch amddiffynnol mannau poblog a phobl sydd mewn perygl penodol o derfysgaeth.

**Cryfhau diogelwch ein ffiniau**

2.41 Ein blaenoriaeth bennaf o ran Amddiffyn oedd diogelwch ein ffiniau ac wrth hedfan, ac mae hynny'n dal i fod yn wir. Mae ein buddsoddiad mewn dadansoddi data wedi gwella ein dealltwriaeth am batrymau teithio cymhleth a'n gallu i adnabod a mynd i'r afael â'r bygythiadau i'r DU. Rydyn ni wedi datblygu technolegau targedu gwell sydd wedi gwella ein gallu i graffu ar gargo gan chwilio am ffrwydron, arfau tanio, arian a chyffuriau. Byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein systemau datgelu ar y ffiniau.

2.42 Trwy gydol y flwyddyn hon, mae'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (a sefydlwyd yn Hydref 2013), wedi datblygu gweithgarwch mwy soffistigedig ar y ffiniau, a hynny ar y cyd â Llu'r Ffiniau a'r gymuned gwrthderfysgaeth. Mae ein technoleg a'n gwybodaeth yn mynd i'r afael â nifer o fygythiadau, nid dim ond terfysgaeth.

2.43 Mae dadansoddi gwybodaeth am bobl a nwyddau wrth galon diogelwch y ffiniau. Erbyn hyn rydyn ni'n prosesu gwybodaeth lefel uwch am deithwyr (h.y. y bio-ddata a gynhwysir ar ddogfennau teithio teithwyr) mewn perthynas rhyw 180 miliwn o deithiau unigol yn ôl ac ymlaen i'r DU bob blwyddyn.

2.44 Gallwn gasglu rhai Cofnodion am Enwau Teithwyr (mae PNR yn wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn prosesu trefniadau archebu teithiau, ac mae'n gallu cynnwys sut y gwnaed y trefniadau teithio a sut y talwyd amdanynt, manylion cyswllt, rhifau'r seddi a'r cynlluniau teithio pellach) yn enwedig ar gyfer pobl sy'n hedfan rhwng y DU a gwledydd y tu hwnt i Ewrop. Mae PNR yn bwysig iawn i'r heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, ac yn arbennig yng nghyd-destun ymladdwyr tramor. Nid oes yna seiliau deddfwriaethol clir ar gyfer casglu PNR o fewn Ewrop ar hyn o bryd. Mae angen dybryd felly am Gyfarwyddeb PNR effeithiol o fewn yr UE, ac mae'r DU wedi bod yn lobio'n gyson o blaid hyn yn Senedd Ewrop, yn y Comisiwn ac yng Nghyngor Ewrop. Mae diffyg Cyfarwyddeb o'r fath yn parhau i wanhau'n sylweddol ymdrechion Ewrop i atal terfysgaeth. Mae'r Swyddfa Gartref, yr Heddlu a'r Adran Drafnidiaeth yn parhau i gydweithio'n agos â chwmnïau

awyrennau er mwyn clustnodi teithwyr a allai fod yn rhai risg uchel, ac yn enwedig pobl ifanc a bregus sy'n bwriadu mynd i Syria.

**Gwneud ein rhwydwaith trafnidiaeth yn llai bregus**

**Diogelwch wrth hedfan**

2.45 Mae grwpiau terfysgol (ac yn enwedig y rhai yn Yemen a Syria) yn dal i fod yn benderfynol o ymosod ar awyrennau sifil. Rydyn ni'n parhau i wella galluoedd sgrinio cyn hedfan y DU trwy gyflwyno rhagor o sganwyr diogelwch ac ymchwilio i dechnoleg datgelu newydd. Ond nid dim ond mater o sgrinio yn y DU yw diogelwch hedfan; rydyn ni'n dibynnu hefyd ar ddiogelwch meysydd awyr dramor. Ers Gorffennaf 2014, rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda nifer o wledydd eraill, a gyda'r cwmnïau awyrennau, i roi sgrinio diogelwch ychwanegol ar waith ar gyfer teithwyr sy'n hedfan i'r DU.

2.46 Mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn ymestyn y sail gyfreithiol ar gyfer cynlluniau awdurdod i gludo ('dim hedfan'), yn gwella'r cysylltiadau electronig rhwng cwmnïau cludo a systemau ein ffiniau (fel y gallwn ddarparu cyfarwyddiadau i gwmni cludo wahardd teithiwr cyn i'r awyren ymadael) ac yn sefydlu cosb sifil ar gyfer cwmnïau cludo sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu data.

2.47 Mae ein Cynllun Archwiliadau Cyn Ymadael yn defnyddio dadansoddiad o ddata teithwyr i glustnodi unigolion sy'n peri bygythiad terfysgol, neu sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, sy'n hedfan i'r DU neu oddi yma. Eto rydyn ni wedi atal nifer fechan o unigolion sy'n peri bygythiad i'r awyren ei hun rhag teithio yma. Rydyn ni wedi gwella effeithiolrwydd y cynllun archwiliadau cyn ymadael trwy roi trefn profi ac adolygu ar waith.

**Diogelwch ar y Môr**

2.48 Mae Strategaeth Genedlaethol y DU dros Ddiogelwch Morwrol (NSMS), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, yn disgrifio'r gwaith pwysig sydd ar droed ar draws y Llywodraeth i leddfu'r risgiau i ddiogelwch buddiannau morwrol y DU yn y wlad hon a thramor.

**Diogelwch y Rheilffyrdd**

2.49 Rydyn ni wrthi'n cwblhau camau olaf yn y gwaith o osod mesurau i gadw cerbydau gelyniaethus draw o rai o orsafoedd trenau prysuraf Prydain Fawr. Rydyn ni'n cydweithio'n agos â'r diwydiant rheilffyrdd hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn integreiddio nodweddion a chynnyrch diogelwch priodol i'w dyluniadau yn rhan o'u rhaglen o waith i uwchraddio a datblygu gorsafoedd newydd, fel Birmingham New Street a Crossrail. Mae hyn yn rhan o raglen fuddsoddi DfT sy'n buddsoddi miliynau o bunnoedd yn rhwydwaith y rheilffyrdd, er mwyn helpu i wneud y rhwydwaith yn llai bregus a lleihau effaith bosibl ymosodiad.

**Seilwaith Gwydn**

2.50 Rydyn ni wedi cryfhau'r rheolaeth ar fynediad i ddeunyddiau peryglus sydd ar gael yn hwylus, gan sicrhau ei bod yn anos i derfysgwyr eu defnyddio wrth gyflawni ymosodiadau. Mae cyflwyniad trefn trwyddedu newydd ym mis Medi 2014 yn caniatáu i ni ddilysu pobl sydd am brynu sylweddau y gellir eu troi'n ffrwydron. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau mawr sy'n gwerthu'n

sylweddol dros y rhyngrwyd hefyd er mwyn hyrwyddo ymddygiad mwy cyfrifol wrth werthu sylweddau peryglus ar lein, ac rydyn ni wedi cael cefnogaeth sylweddol ac adeiladol iawn yn hyn o beth.

2.51 Rydyn ni wedi diweddaru ein diffiniad o Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI) ac wedi ychwanegu sectorau newydd, sy'n golygu ein bod ni'n parhau i fynd i'r afael â'n prif feysydd risg a'n gwendidau. Mae gennym ddulliau mwy cynhwysfawr o fynd ati i amddiffyn CNI, gan edrych ar yr holl risgiau, o lifogydd i seiberymosodiadau i derfysgaeth. Mae ein safleoedd mwyaf critigol wedi cael eu hasesu gan y Llywodraeth, a sefydlwyd mesurau diogelwch ffisegol.  Rydyn ni'n gwella ein trefniadau ar gyfer ymateb i argyfyngau mewn safleoedd allweddol yn y sector ynni hefyd.

**Llefydd poblog a phobl sydd mewn perygl penodol o derfysgaeth**

2.52 Rydyn ni'n adolygu ac yn addasu ein dulliau o fynd ati i amddiffyn 'llefydd poblog', systemau trafnidiaeth a ffigurau cyhoeddus yng ngoleuni'r bygythiadau a'r newidiadau yn nhactegau'r terfysgwyr. Yn sgil dyrchafu lefel y bygythiad a'r digwyddiadau diweddar ym Mharis, rydyn ni wedi cynyddu diogelwch amddiffynnol, gan gynnwys cyflwyno patrolau cerbydau arfog, a phlismona mwy gweladwy. Mae'r heddlu wedi cynyddu eu hamddiffyniad a'u sicrwydd i gymunedau Iddewig a Moslemaidd.

**YMGYSYLLTU Â'N DIWYDIANT DIOGELWCH A'I GEFNOGI**

Yn dilyn yr argymhellion yn ein Papur Gwyn 'Diogelwch Cenedlaethol Trwy Dechnoleg' yn 2012, rydyn ni wedi cryfhau ein perthynas â'n diwydiant diogelwch. Ar lefel ddomestig, rydyn ni wedi cymryd camau i osod y DU ar flaen y gad yn y farchnad allforio diogelwch byd-eang, gan gynnwys trwy:

- penodi i rôl uwch swyddog cyfrifol ar gyfer y diwydiant diogelwch, sef Cyfarwyddwr Ymgysylltu'r Diwydiant Diogelwch, a fydd yn gweithio yn y Swyddfa Gartref ac a fydd yn cydweithio'n agos ag UKTI;
- lansio Strategaeth Allforion Diogelwch yn Chwefror 2014;
- sefydlu Partneriaeth Twf Diogelwch a Gwytnwch (SRGP) ym mis Mai 2014 gyda'r nod o sefydlu dull newydd o fynd ati i arloesi, hyrwyddo a chyflawni ar alluoedd diogelwch y DU; a thrwy
- lansio'r Ganolfan Arloesi ac Arddangos Diogelwch yn Rhagfyr 2014 er mwyn darparu cyfleusterau fydd yn galluogi'r Llywodraeth i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu ymatebion arloesol i sialensiau diogelwch ac i ddangos eu cynnyrch i ddarpar-gwsmeriaid.

Bydd gwaith pellach yn cynnwys creu 'brand diogelwch y DU (h.y. nod rhagoriaeth yn niwydiant diogelwch y DU i ddarparu sicrwydd ar gyfer cwsmeriaid) a 'phorth allforion' ar lein i ddarparu gwybodaeth hwylus am farchnadoedd tramor (e.e. amgylcheddau gwleidyddol a rheoleiddiol) ar gyfer cwmnïau'r DU er mwyn eu cynorthwyo i wneud busnes.

Mae parch mawr i waith gwrthderfysgaeth y DU dramor. Mae gwledydd eraill yn aml yn dod atom i ofyn am gyngor a chymorth. Lle bo modd, rydyn ni eisiau helpu, naill ai trwy raglen gymorth gan y Llywodraeth neu mewn partneriaeth â'n diwydiant diogelwch. Rydyn ni wedi:

- llofnodi memoranda dealltwriaeth neu gytundebau tebyg am ddiogelwch gyda phum gwlad (Saudi Arabia, Qatar, Kuwait, Bahrain a Brasil) er mwyn ehangu a dyfnhau'r perthnasau diogelwch rhwng ein gwledydd;
- datblygu cytundebau tebyg â dwy wlad arall (Japan a Mexico); a
- datblygu cyfleoedd i ddiwydiant diogelwch y DU gynorthwyo gwledydd sy'n cynnal Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn y dyfodol (Brasil a Japan) i gynnal gemau diogel.

**PARATOI**

2.53 Cawsom ein hatgoffa cymaint o ddifrod a dinistr  y gall unigolyn neu grŵp bychan ei achosi yn sgil yr ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis, Ottawa a Sydney, a'r sialensiau niferus y gallant eu peri o ran ein hymateb brys. Felly rydyn ni'n parhau i adolygu ac addasu ein gallu i ymateb er mwyn mynd i'r afael â mathau newydd o fygythiadau. Mae gennym gynlluniau manwl ar gyfer ein hymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau ers amser hir, gan gynnwys ymosodiadau sy'n defnyddio arfau tanio, ac rydym wedi paratoi'n dda ar gyfer achosion o'r fath. Ond rhaid i ni fod yn gallu delio ag ymosodiadau cymharol ansoffistigedig gan bobl a allai fod wedi dychwelyd o Syria neu Irac, neu a allai fod wedi cael eu hysbrydoli gan ddigwyddiadau yno.

2.54 Yn 2014, ein hamcanion blaenoriaeth ym maes Paratoi oedd:

- parhau i feithrin galluoedd generig er mwyn ymateb i amrywiaeth eang o argyfyngau terfysgol ac argyfyngau sifil eraill, ac ymadfer yn eu sgil;
- ein gwneud ni'n fwy parod ar gyfer y risgiau â'r effaith fwyaf a nodwyd yn yr Asesiad Cenedlaethol o Risg; a
- gwella gallu'r gwasanaethau brys i gydweithio yn ystod ymosodiad terfysgol.

**Meithrin galluoedd**

2.55 Trwy gydol 2014, rydyn ni wedi bod yn adolygu pa mor barod yw'r DU i ymateb i oblygiadau ehangach argyfyngau sifil mawr, er mwyn sicrhau ein bod ni wedi adnabod ac wedi datrys unrhyw fylchau yn ein hymateb. Rydyn ni wedi canfod bod yna nifer fawr o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ac sy'n meddu ar asedau arbenigol eraill sy'n eu galluogi i ymateb i nifer fawr o anafiadau, a bod y systemau telathrebu y mae ymatebwyr brys yn y DU yn eu defnyddio yn caniatáu ar gyfer cyfathrebu effeithiol yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, a hyd yn oed pan fo methiant yn y systemau, mae yna systemau wrth gefn sy'n galluogi iddynt rannu gwybodaeth o hyd.

**Paratoi ar gyfer y risgiau â'r effaith fwyaf**

2.56 Ym mis Rhagfyr, fe gytunon ni ar raglen newydd o waith i gryfhau ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau lle defnyddir deunyddiau cemegol, biolegol neu radiolegol. Rydyn ni wedi gosod mwy o bwyslais ar weithgarwch achub bywydau gan y bobl gyntaf i gyrraedd safle digwyddiad, wedyn rhagor o waith gan arbenigwyr hyfforddedig â'r offer priodol ym maes halogyddion. Mae'r dull newydd hwn o weithredu yn dibynnu ar lai o ymatebwyr arbenigol i argyfyngau, ond mae'n fwy effeithiol wrth amddiffyn y cyhoedd.

**Y gwasanaethau brys**

2.57 Yn sgil canfyddiadau Cwest y Crwner i'r ymosodiadau 7/7 yn Llundain, rydyn ni wedi gwella ymateb cyfunol y gwasanaethau brys i unrhyw ddigwyddiad mawr neu gymhleth, gan gynnwys ymosodiad terfysgol, gan sicrhau eu bod yn cydweithio'n effeithiol i achub cynifer o fywydau â phosibl. Daeth Rhaglen Gallu ein Gwasanaethau Brys i Ryngweithredu (JESIP) i ben ym mis Medi 2014. Hyfforddodd  JESIP dros 11,000 o bersonél blaenoriaeth yr heddlu, y gwasanaethau tân ac ambiwlans, a hynny'n bennaf er mwyn gwella meysydd cyfathrebu hanfodol rhwng y gwasanaethau, a chyfrannu at wneud penderfyniadau mwy effeithiol. Mae'r gwasanaethau brys eisoes yn rhoi egwyddorion JESIP ar waith yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau nad ydynt yn achosion o derfysgaeth.

2.58 Mae egwyddorion cydweithredu effeithiol JESIP bellach wedi cael eu cymhwyso i'n galluoedd hirsefydlog i ymateb i ymosodiadau terfysgol sy'n ymwneud ag arfau tanio. Rydyn ni wedi gwella galluoedd ein heddluoedd o ran arfau tanio dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r gallu hwn yn cael ei brofi mewn digwyddiadau byw, ac mae'n cael ei ymarfer yn gyson, gan gynnwys mewn senarios sy'n debyg i'r digwyddiadau a welwyd yn ddiweddar mewn gwledydd eraill.

**CASGLIAD**

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fuddsoddi yn ein gwaith gwrthderfysgaeth er mwyn sicrhau ei fod yn hollol effeithiol. Rydyn ni'n fodlon bod hynny'n dwyn ffrwyth.

Mae CONTEST yn parhau i ddarparu fframwaith cadarn, ond mae'r newid cyflym o ran graddfa'r bygythiad terfysgol a'r mathau o fygythiad sy'n ein hwynebu wedi golygu y bu angen i lawer o'n gwaith newid hefyd. Mae'r broses honno wedi cael ei disgrifio'n glir yn yr adroddiad hwn, a bydd hynny'n parhau.

Rydyn ni wedi cymryd camau i sicrhau bod gan yr asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith y pwerau a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i ymateb yn effeithiol. Rydyn ni wedi cynyddu graddfa ac effaith ein gwaith Atal. Rydyn ni wedi parhau i gryfhau diogelwch ein ffiniau a theithio yn yr awyr, dramor ac yn y DU. Rydyn ni wedi diwygio dulliau ein gwasanaethau brys o weithredu yn sgil ymosodiad terfysgol. Rydyn ni wedi datblygu ein cydweithredu rhyngwladol.

Mae'n bur debyg y bydd ymosodiad terfysgol yn y wlad hon 'yn debygol iawn' am dipyn o amser i ddod. Fodd bynnag, mae gennym ymdrech gwrthderfysgol sydd gystal â neb arall yn y byd, sy'n cael ei chynnal gan bobl sy'n alluog iawn, yn arbenigol, yn ymroddgar ac yn ymroddedig o fewn y Llywodraeth a'r tu hwnt iddi. Rydyn ni yn y lle gorau posibl i ddelio â'r sialensiau sy'n ein hwynebu ni nawr.